DYDDIEDIG/DATED 18 August 2020

GORCHYMYN I WYRO LLWYBR CYHOEDDUS
PUBLIC PATH DIVERSION ORDER

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - ADRAN 257
TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - SECTION 257

# Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wyro Llwybr Cyhoeddus (Llwybr Troed Rhif 13 yng Nghymuned Betws yn Rhos) 2020

# The County Borough of Conwy (Public Footpath No.13, *in the Community of Betws yn Rhos) Public Path Diversion Order 2020*


Gwasanaethau Cyfreithiol/
Legal Services
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/
Conwy County Borough Council,
Bodlondeb,
Conwy.


Cyf./Ref CCBC-035515

GORCHYMYN I WYRO LLWYBR CYHOEDDUS
DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - ADRAN 257

**Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy i Wyro Llwybr Cyhoeddus (Llwybr Troed Rhif 13 yng Nghymuned Betws yn Rhos) 2020**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor") dan Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") oherwydd ei fod o'r farn bod yn rhaid gwyro'r llwybr troed y cyfeirir ato yn y gorchymyn hwn er mwyn caniatáu a gweithredu datblygiad yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd dan Ran III Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**DRWY'R GORCHYMYN HWN:**

**1.** Bydd y llwybr troed ar draws y tir a ddangosir â llinell ddu drom ar y map sydd wedi'i amgáu gyda'r Gorchymyn hwn, ac a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ("yr Atodlen"), yn cael ei wyro fel y nodir isod

**2** Creir at foddhad rhesymol y Cyngor ffordd arall i'w defnyddio yn lle'r llwybr troed a nodir yn Rhan 2 yr Atodlen ac a ddangosir â llinell ddu drom doredig ar y cynllun a enwyd

**3.** Daw'r gwyriad i' llwybr troed i rym ar y dyddiad y bydd y Cyngor yn tystio y cydymffurfiwyd â thelerau Cymal 2 uchod.

**4.** Bydd y gwaith canlynol yn cael ei wneud gan y Datblygwr mewn perthynas â'r briffordd a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r Atodlen arwyneb caled newydd ar y llwybrau drwy'r datblygiad

**ATODLEN**
**(Rhan 1)**
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd bresennol

Y darn hwnnw o Lwybr Troed 13 o'r B5383 (Dolwen Road) (pwynt A ar y cynllun) i'r gogledd orllewin o Dolgau sy'n mynd i gyfeiriad y gogledd ddwyrain ochr yn ochr â Ffin Cyngor Tref Bae Colwyn ac i'r dde o Ffordd Las am oddeutu 160 metr cyn troi tua'r de orllewin tuag at Ffin Cyngor Tref Bae Colwyn a'r gyffordd a Llwybr Troed 43, Bae Colwyn (pwynt B ar gynllun y gorchymyn)

**(Rhan 2)**
Disgrifiad o safle'r ffordd arall

Yn dechrau oddeutu 25m i'r gogledd ddwyrain o'r llwybr troed presennol o'r B5383 (Dolwen Road) (pwynt C ar y cynllun) mae'r llwybr yn mynd ymlaen i'r un cyfeiriad ar hyd perimedr y datblygiad tai ar y llwybrau troed wedi'u hwynebu ac yn gadael ffin y safle datblygu gan ailymuno ar gyfeirnod grid SH 87116 76765, (pwynt D ar y cynllun)

Hyd y gwyriad i'r llwybr troed yw oddeutu 330m ac mae'n ddau fetr o led.

R H O D D W Y D dan Sêl Gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y 18 diwrnod hwn o Awst Dwy fil ac ugain

PUBLIC PATH DIVERSION ORDER
TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - SECTION 257

**The County Borough of Conwy**
**(Public Footpath No.13, in the Community of Betws yn Rhos)**
**Public Path Diversion Order 2020**

This Order is made by Conwy County Borough Council ("the Council") under Section 257 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") because it is satisfied that it is necessary to divert the footpath to which this order relates in order to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part III of the Town and Country Planning Act 1990

**BY THIS ORDER:**

**1.** The footpath over the land shown by a bold black line on the map attached to this Order and described in Part 1 of the Schedule to this Order ("the Schedule") shall be diverted as provided below.

**2.** There shall be created to the reasonable satisfaction of the Council an alternative highway for use as a replacement for the said footpath as provided in Part 2 of the Schedule and shown by a bold black dashes on the said plan

**3.** The diversion of the footpath shall have effect on the date in which the Council certify that the terms of Article 2 above have been complied with.

**4.** The following works shall be carried out by the Developer in relation to the highway described in Part 2 of the Schedule.- Bound surfacing on paths through the development

**SCHEDULE**

**(Part 1)**
Description of site of existing path or way

That section of Footpath 13 commencing from the B5383 (Dolwen Road) (point A on the plan) to the north west of Dolgau and runs north west parallel with the Colwyn Bay Town Council Boundary and to the south of Ffordd Las for approximately 160 metres before turning south west to the Colwyn Bay Town Council Boundary and its junction with Footpath 43, Colwyn Bay (point B on the plan)

**(Part 2)**
Description of site of alternative highway

Commencing approximately 25m to the north west of the existing footpath from the B5383 (Dolwen Road) (point C on the plan) the path proceeds in the same direction along the perimeter of the housing development on the surfaced footways and leaves the development site boundary to re-join itself at grid reference SH 87116 76765, (point D on the plan)

The length of the diverted section of the public footpath is approximately 330m
Width is 2m

**GIVEN** under the Common Seal of Conwy County Borough Council of this 18 day of August Two thousand and twenty

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** yma yng ngŵydd:-

**THE COMMON SEAL** of **CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL** was hereunto affixed in the presence of:-

Swyddog Selio Awdurdodedig.
Authorised Sealing Officer.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 ADRAN 257 - GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS - LLWYBR TROED RHIF 13 BETWS YN RHOS**
**TOWN & COUNTRY PLANNING ACT 1990 S. 257 PUBLIC PATH DIVERSION - FOOTPATH NO 13 BETWS YN RHOS**

**CYFEIRNOD GRID - GRID REFERENCES:**
**A: SH 87294 76855**
**B: SH 87116 76765**
**C: SH 87273 76871**
**D: SH 87116 76765**

**Hawliau tramwy heb ei heffeithio - Unaffected Rights of Way** ● ● ● ● ● ● ● ●

**Llwybrau Presennol - Existing Route** ———

**Newid Arfaethedig - Proposed Diversion** – – – – –




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380 2019
© Crown copyright. All rights reserved. Conwy County Borough Council 100023380 2019
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
Use of this data is subject to terms and conditions.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available;
You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and
Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.
Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.